

## **RHEOLIADAU GWAITH MOROL (ASESIAD EFFAITH AMGYLCHEDDOL) 2007 (FEL Y'U DIWYGIWYD)**

### **HYSBYSIAD PENDERFYNU YNGHYLCH CANIATÁU GWAITH MOROL YNG NGOLEUNI ASESIAD EFFAITH AMGYLCHEDDOL**

#### **Gwella Promenâd ac Amddiffynfeydd Glan Môr Bae Colwyn**

Y mae'r Tîm Trwyddedu Morol, gan weithredu ar ran Gweinidogion Cymru, yn rhoi caniatâd AEA i'r gwaith uchod tan Reoliad 22 Rheoliadau Gweithfeydd Morol (AEA) 2007.

Ceir manylion cyflawn y penderfyniad yn y ddogfen hysbysu caniatâd AEA, a gyhoeddir ar ein gwefan, hefyd. Canlyna'r penderfyniad hwn gais am drwydded forol tan Ran 4 Deddf y Môr a Mynediad I'r Arfordir 2009.

Wrth benderfynu ynghylch y caniatâd AEA, bu inni ddwyn mewn cof:

- a) yr wybodaeth a ddarparwyd yn y cais,
- b) yr Atodiad Datganiad Amgylcheddol [a gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd yn ddiweddarach er mwyn ategu'r datganiad hwnnw];
- c) y ddeddfwriaeth berthnasol;
- ch) sylwadau cyrff ymgynghorol a'r cyhoedd, ac yn neilltuol, sylwadau ynghylch AGA Liverpool Bay / Bae Lerpwl (Cymru)
- d) effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y cynllun ar brosesau ffisegol, ecoleg a chadwraeth natur, tirweddol a chymdeithasol-economaidd.

Yn dilyn hyn, casglasom na fyddai elfennau morol y cynllun yn effeithio'n sylweddol er gwaeth ar yr amgylchedd.

Y Tîm Trwyddedu Morol  
Cyfoeth Naturiol Cymru